



# ESRC Wales Doctoral Training Partnership

## Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru ESRC

Mae'r Ganolfan ar gyfer Ymchwil i Ddwyieithrwydd ac Adrannau Seicoleg, Ieithyddiaeth, ac Addysg ym Mhrifysgol Bangor, a'r Ganolfan Ymchwil Iaith ac Adran Ieithyddiaeth Gymhwysol ym Mhrifysgol Abertawe, trwy gefnogaeth Partneriaeth Hyfforddiant Ddoethurol Cymru (DTP Cymru), yn gwahodd ceisiadau ar gyfer astudiaethau PhD, gyda'r posibilrwydd o dderbyn ysgoloriaeth ymchwil ESRC DTP llawn, i gychwyn ym mis Hydref 2023. Rydym yn bwriadu cynnig ysgoloriaethau ymchwil ym maes rhyngddisgyblaethol **Dwyieithrwydd**.

Mae'r bartneriaeth rhwng Prifysgolion Bangor ac Abertawe yn gosod ffocws ar arbenigeddau yn yr is-ddisgyblaethau craidd o fewn dwyieithrwydd a nodir isod, lle'r ydym yn debygol o gynnig yr ysgoloriaethau hyn:

- Seicoieithyddiaeth a Seicoleg iaith
- Caffael a Datblygu iaith
- Darllen ac Adnabod Geiriau
- Perthynoledd Ieithyddol
- Arferion Addysgol mewn Dwyieithrwydd
- Dryswch iaith a datblygiadau iaith anarferol
- Dadansoddi disgwrs
- Dadansoddi disgwrs beirniadol
- Caffael iaith Gyntaf ac Ail iaith
- Dysgu ac Addysgu Ail iaith
- Addysgu iaith Trwy Gyfrwng Cyfrifiadur (CALL)
- Cystawen
- Astudiaethau geirfaol
- Iaithyddiaeth Corpws a Dadansoddi disgwrs trwy ddulliau Corpws
- Trosiad
- Ethnograffeg Ieithyddol ac ymarferion cymdeithasol yn ymwneud â llythrennedd
- Cyfathrebu rhyngddiwylliannol
- Goslef a strwythur gywbodaeth
- Cyfathrebu Iechyd a Lles, Cyfathrebu yn sgil Dementia, cyfathrebu trwy oes bywyd
- Disgwrs Sefydliadol a'r Gweithle
- Seineg a Seinyddiaeth

- Iaith Fformiwlaig a Brawddegau

Rydym yn eich gwahodd i gynnig testun ymchwil ar gyfer astudiaeth ddoethurol mewn un o'r maesydd uchod.

Daw deiliaid yr ysgoloriaethau ymchwil yn rhan o hwb deinamig ar gyfer datblygu theorïau newydd yn ymwneud â ffurf, gweithrediad, defnydd a phrosesu iaith. Fe fydd yr ymchwilydd llwyddiannus yn elwa o'r traddodiad hir sydd wedi bod o gydweithio mewn ymchwil ac addysgu ôl-radd rhwng Canolfan Ymchwil Dwyieithrwydd Prifysgol Bangor a Chanolfan Ymchwil Iaith Prifysgol Abertawe, gan gynnwys mynediad i holl seminarau ymchwil a gweithgareddau cymdeithasol y sefydliadau hyn (e.e., cynhadleddau Ymchwil Ôl-Radd).

Ar gyfer unrhyw ymholiadau **cyn cyflwyno cais ffurfiol**, dylid cysylltu â:

Dr. Gary Oppenheim ([g.m.oppenheim@bangor.ac.uk](mailto:g.m.oppenheim@bangor.ac.uk)), Cydlynnydd Llwybr Dwyieithrwydd Bangor

**neu**

Dr. Vivienne Rogers ([v.e.rogers@swansea.ac.uk](mailto:v.e.rogers@swansea.ac.uk)), Pennaeth Llwybr Dwyieithrwydd Abertawe

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr eithriadol sydd â gradd anrhydedd dosbarth cyntaf neu ail uchel, neu radd Meistr briodol. Mae'r Brifysgol a DTP ESRC Cymru yn gwerthfawrogi amrywiaeth a chydarddoldeb ar bob lefel ac yn annog ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned, ni waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhyw, hunaniaeth ryweddol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol. Yn unol â'n hymrwymiad i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a chynyddu recriwtio gan grwpiau a dangynrychiolir, mae croeso ac anogaeth benodol i geisiadau gan ymgeiswyr Du Prydeinig, Asiaidd Prydeinig, ethnigrwydd lleiafrifol Prydeinig a hil gymysg Prydain. Rydym yn croesawu ceisiadau i astudio'n amser llawn neu'n rhan amser, ac mae ysgoloriaethau ar gael fel naill ai '1+3' (h.y. un flwyddyn gyfan o radd Meistr hyfforddiant ymchwil ac yna astudiaeth ddoethurol amser llawn neu gymhwyster cyfatebol rhan amser) neu '+3' (h.y. tair blynedd o astudiaeth ddoethurol amser llawn neu gymhwyster cyfatebol rhan amser) yn dibynnu ar anghenion yr ymgeisydd.

(Gallai llwybrau/sefydliadau ychwanegu rhywbeth yma am eu diwrnodau agored, enwau cyswllt cynullwyr llwybrau neu arweinwyr sefydliadol, efallai)

**Dyddiad Cau: 12:00 ar 3 Chwefror 2023**

Mae'r ysgoloriaethau hyn yn ddyfarniadau 'agored'. Dylai'r ymgeisydd gysylltu gyda arolygydd tebygol y prosiect cyn cyflwyno'r cais, er mwyn sicrhau fod capasiti ar gael o fewn y Brifysgol. Gall

yr arolygydd gynorthwyo'r ymgeisydd i fireinio a datblygu'r cais. Mae rhestr o aelodau staff a'u arbenigeddau ymchwil i'w canfod trwy'r lincs canlynol:

Bangor: <https://www.bangor.ac.uk/cy/cni/iaith-llythrennedd-dwyieithrwydd>

Abertawe: <https://www.swansea.ac.uk/cy/staff/dyniaethau-a-gwyddoraucymdeithasol/diwylliant-cyfathrebu-staff/iaith-saesneg-tesol-ieithyddiaeth-gymhwysol-staff/>

Fe geir disgrifiad byr o'r llwybr Dwyieithrwydd sydd wedi ei ddilysu o wefan ESRC DTP Cymru:

<https://walesdtp.ac.uk/pathway/bilingualism/>

Fe fydd cydlynnydd y llwybr perthnasol o fewn y ddwy Brifysgol yn hapus i roi cyngor ar eich cais.

### **YR HYN Y BYDD YR YSGOLORIAETH YN EI GWMPASU**

Bydd Dyfarniadau Ysgoloriaeth yn dechrau ym mis Hydref 2023 ac yn talu am eich ffioedd dysgu yn ogystal â chynnig grant cynhaliaeth (ar hyn o bryd £17,668 y flwyddyn ar gyfer myfyrwyr llawn amser 2022/23, a bydd y swm hwn yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn); ac yn cynnwys mynediad at Grant Cymorth Hyfforddiant Ymchwil (RTSG) ychwanegol, er y gallai elfen o'r gronfa hon gael ei 'chronni' fel bod angen ceisiadau ar wahân o 2023 ymlaen. Mae cyfleoedd a manteision eraill ar gael i ddeiliaid ysgoloriaeth, gan gynnwys lwfans gwaith maes tramor (os yw'n berthnasol), cyfleoedd am interniaeth, ymweliadau â sefydliadau tramor a grantiau bychain eraill.

### **PWY SY'N GYMWYS**

Mae ysgoloriaethau ESRC yn gystadleuol iawn, a dylai ymgeiswyr feddu ar gefndir academiaidd rhagorol yn y gwyddorau cymdeithasol, gyda gradd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uchel; ystyrir ymgeiswyr sy'n meddu ar radd Meistr mewn hyfforddiant ymchwil (neu gefndir cyfatebol ym maes hyfforddiant ymchwil) ar gyfer dyfarniad +3. Mae ysgoloriaethau DTP Cymru ar gael i fyfyrwyr cartref a rhyngwladol (gan gynnwys yr UE a'r AEE). Bydd pob ymgeisydd yn gymwys i gael dyfarniad llawn sy'n cynnwys cyflog cynnal a chadw a thalu ffioedd dysgu ar gyfradd sefydliad ymchwil y DU. Rhaid i ymgeiswyr fodloni gofynion cymhwysedd yr ysgoloriaeth. I gael rhagor o fanylion ewch i [wefan UKRI](#). Bydd ymgeiswyr myfyrwyr rhyngwladol llwyddiannus yn derbyn efrydiaeth DTP Cymru a ariennir yn llawn ac ni chodir y gwahaniaeth ffioedd arnynt rhwng cyfradd y DU a chyfradd ryngwladol.

### **1+3 NEU +3?**

Ac eithrio ysgoloriaethau ar y llwybr Economeg, mae dyfarniadau ar gael ar sail 1+3 neu +3. Mae ysgoloriaeth 1+3 yn cynnig cyllid am bedair blynedd (neu sy'n cyfateb i hynny'n rhan amser), gan gwblhau Gradd Meistr hyfforddiant ymchwil yn y flwyddyn gyntaf, ac yna 3 blynedd o gyllid ymchwil ar gyfer PhD. Mae ysgoloriaeth +3 yn darparu cyllid ar gyfer tair blynedd yr astudiaethau ymchwil PhD yn unig (neu gyfnod sy'n cyfateb i hynny'n rhan amser).

### **ASESU**

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fydd 12.00 hanner dydd, ddydd Gwener 3 Chwefror 2023. Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael gwahoddiad i gyfweiliad, a disgwylir cynnal y cyfweiliadau ddiwedd Chwefror/dechrau Mawrth 2023. Ar ôl y cyfweiliad, caiff rhestr fer derfynol o ymgeiswyr ei chyflwyno

i Banel a gynullir gan Grŵp Rheoli DTP ESRC Cymru i wneud penderfyniad terfynol ynghylch pwy y dylid dyfarnu ysgoloriaethau iddynt. Yn y rhan fwyaf o achosion gall ymgeiswyr llwyddiannus ddisgwyl ymateb erbyn dechrau mis Ebrill 2023.

### SUT MAE CYFLWYNO CAIS

Dylai ymgeiswyr i Brifysgol Bangor gyflwyno eu ffurflen gais drwy'r linc canlynol:

<https://www.bangor.ac.uk/cy/study/postgraduate-research/apply>.

Yn y system ymgeisio ar-lein, o dan y tab **Rhaglenni**, dewiswch **'Ysgoloriaethau Hysbysebu Prifysgol Bangor ...'**

### Ymchwil ol-radd

(PhD, EDD, MPhil, Masters by Research)

### Project Ymchwil eich hun...

Ysgoloriaethau â Hysbysebwyd gan Prifysgol Bangor...

Yna dewiswch **'Efrydiaeth Gyffredinol DTP ESRC Cymru 2023'**, gan sicrhau eich bod yn nodi arolygydd tebygol a'r adran i'r blwch 'Cyswllt Academiaidd'. Cliciwch Ychwanegu.

Dylai ymgeiswyr ar gyfer Prifysgol Abertawe gyflwyno eu cais trwy'r system electronig APPLY. Mae mwy o wybodaeth i'w ganfod ar y linc canlynol:

<https://www.swansea.ac.uk/postgraduate/scholarships/research/>.

**Dylid sicrhau fod y ffurflen gais derfynol a'r holl ddogfennau perthnasol ar gyfer astudiaethau doethurol eu cyflwyno i'r Brifysgol berthnasol erbyn y dyddiad cau o hanner dydd ar 3 Chwefror 2023. Ni dderbynir ceisiadau ar ôl y dyddiad hwn.**

Rhaid i'r cais gynnwys y dogfennau canlynol:

1. Llythyr eglurhaol: Dylid ei gyfeirio at Dr. Gary Oppenheim a Dr. Vivienne Rogers. Rhaid i'r llythyr eglurhaol enwi'r ysgoloriaeth gydwethredol y gwneir cais amdani. Rhaid iddo nodi eich rhesymau a'ch ysgogiad dros wneud cais i astudio ym Mhrifysgol Bangor neu Abertawe, ac ar y llwybr Dwyieithrwydd; eich dealltwriaeth a'ch disgwyliadau o ran astudiaethau doethurol; a'ch diddordebau academiaidd yn gyffredinol, ac yn benodol sut maent yn berthnasol i'r disgrifiad o'r prosiect a roddwyd. Ni ddylai'r llythyr eglurhaol fod yn hwy na dwy dudalen. Nodwch hefyd a ydych yn gwneud cais ar sail +3 neu 1+3.

2. Cymwysterau Academaidd/Proffesiynol: Lle bo hynny'n briodol, dylai hyn gynnwys tystiolaeth o Gymhwysedd Iaith Saesneg yn ogystal (gweler gofynion mynediad sefydliadol).

3. Geirdaon: Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno dau eirda academaidd i gefnogi'r cais. Rhaid i ymgeiswyr fynd at ganolwyr eu hunain a chynnwys y geirdaon ynghyd â'u cais.

4. Curriculum Vitae: Ni ddylai fod yn hwy na dwy dudalen.

5. Cynnig Ymchwil: Ar gyfer ysgoloriaethau cydweithredol, dylai'r cynnig ymhelaethu'n uniongyrchol ar y disgrifiad amlinellol a ddarparwyd. Ni ddylai'r cynnig fod yn hwy na *chyfanswm* o 1000 o eiriau, heb gynnwys cyfeiriadau llyfryddiaeth. Awgrymwn eich bod yn defnyddio'r pum pennawd canlynol yn eich cynnig ymchwil:

- Eich meddyliau ynghylch teitl, nodau a diben yr ymchwil;
- Trosolwg o rywfaint o'r llenyddiaeth ymchwil allweddol sy'n berthnasol i'r astudiaeth;
- Eich cynigion ar gyfer datblygu dyluniad a dulliau'r astudiaeth;
- Disgrifiad o ganlyniadau posibl y prosiect o ran dealltwriaeth, gwybodaeth, polisi ac ymarfer (fel sy'n briodol i'r pwnc);
- Cyfeiriadau llyfryddiaeth